

FLY THE FLAG  
DROS HAWLIAU  
DYNOL

FLY  
THE  
FLAG

## **FLY THE FLAG**

ADNODDAU ATHRAWON AR  
GYFER IAITH A LLENYDDIAETH  
SAESNEG CA4 AC N5

# CYNNWYS

# UPDATE ALL NUMBERS

## CYFLWYNIAD

Gwybodaeth am Fly The Flag	3
Sut mae hyn yn cysylltu ag addysgu Saesneg?	4
Cysylltiadau â TGAU ac N5	5
Sut mae defnyddio'r adnoddau hyn yn y dosbarth?	6
Y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon	7
Rhannu	8

## GWERSI

SOMETHING ISN'T RIGHT A CARROT SOUP	
CYNLLUN GWERS 1: Saesneg Iaith	14
CYNLLUN GWERS 2: Llenyddiaeth Saesneg	16
ROOF AND A SMALL NEEDFUL FACT	
CYNLLUN GWERS 3: Llenyddiaeth Saesneg	18
CYNLLUN GWERS 4: Saesneg Iaith	20
GREEN HOODED SWEATSHIRT	
CYNLLUN GWERS 5: Llenyddiaeth Saesneg	22
CYNLLUN GWERS 6: Saesneg Iaith	23
THE EMPTY TABLE	
CYNLLUN GWERS 7: Llenyddiaeth Saesneg	25
FLYING THE FLAG	
CYNLLUN GWERS 8: Llenyddiaeth Saesneg	27

## ADNODDAU

29

# GWYBODAETH AM Y PROSIECT FLY THE FLAG

Mae *Fly The Flag* yn gydweithrediad unigryw rhwng sefydliadau celfyddydol ac elusennau hawliau dynol sy'n dathlu ac yn ein hatgoffa o'r hawliau dynol yr ydym i gyd yn eu rhannu.

Wedi'i lansio yn 2018, 70 mlynedd ers cadarnhau'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (UDHR), mae *Fly The Flag* yn ein hatgoffa bob blwyddyn o'r hawliau dynol y gall pob un ohonom eu disgwyl, yn enwedig codi ymwybyddiaeth o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol ymhlith pobl ifanc a thynnu sylw at achosion lle mae hawliau dynol yn cael eu torri.



Ai Weiwei gyda'r faner

Yn 2018 creodd Ai Weiwei faner i ddathlu hawliau dynol cyffredinol sydd wedi cael ei defnyddio fel symbol o bwysigrwydd rhyngwladol a pharhaus hawliau dynol.

Bob blwyddyn mae ysgolion wedi dod at ei gilydd ar gyfer *Fly The Flag* i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac arddangos baner Ai Weiwei yn eu hysgolion fel symbol pwerus o hawliau dynol. Mae ysgolion partner o Ucheldiroedd yr Alban i arfordir Cernyw drwy ddinasoedd, trefi a phentrefi ledled y DU wedi dod at ei gilydd i ddathlu a chofio bod hawliau dynol ar gyfer pawb, bob dydd.

Rydym yn cynnal prosiectau a digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn ac yn dod at ein gilydd ar 10 Rhagfyr ar gyfer Diwrnod Hawliau Dynol.

Hoffem eich gwahodd yn awr i ddod â'r drafodaeth ar hawliau dynol i'ch ystafell ddosbarth drwy ein hadnoddau pwrpasol ar gyfer Saesneg TGAU ac N5.



**Nodyn cynnwys:** Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o amgylchiadau personol eich myfyrwyr a chynllunio eich gweithgareddau yn unol â hynny. Efallai na fydd rhai o hawliau dynol eich myfyrwyr yn cael eu bodloni ar hyn o bryd, er enghraifft, o ran tai, iechyd neu statws ffoadur. Caiff codi a thrafod y materion hyn ei annog ond bydd angen sensitifrwydd a chefnogaeth.



**Nodyn iaith:** Mae *Fly The Flag* yn defnyddio'r term 'dathlu' yn ofalus. Mae hwn yn benderfyniad ymwybodol sy'n cydnabod nad yw hawliau dynol llawer o bobl yn y DU a ledled y byd yn cael eu bodloni ar hyn o bryd. Mae hefyd yn cydnabod nad yw hawliau dynol yn fraith.

# CHWIFIO'R FANER YN EICH YSGOL CHI

## SUT MAE MODD CYSYLLTU HYN AG ADDYSGU SAESNEG?

Comisiynodd *Fly The Flag* 34 o feirdd i ysgrifennu ymatebion i Erthygl 25 o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Mae hyn yn cyfleu'r hawliau sylfaenol sydd gennym i gyd i fwyd, lloches, gofal iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a diogelwch.

Mae'r cerddi a gynhyrchwyd ganddynt yn ffres, yn gyfoes ac yn siarad am fyd y bydd pobl ifanc yn ei adnabod – byd y maent yn rhan ohono ac yn byw ynddo. Mae'r beirdd yn siarad yn uniongyrchol â'r angerdd sydd gan bobl ifanc dros gyfiawnder cymdeithasol, yn ymgysylltu â'u hymwybyddiaeth o hawliau ac yn adlewyrchu rhai o'r heriau i'r hawliau

hynny y bydd eich disgyblion wedi'u profi. Mae'n flodeugerdd danllyd, llawn syniadau a hwyliog.

At hynny, mae'r flodeugerdd yn gynrychioliadol iawn gyda beirdd o amrywiaeth o gefndiroedd gan gynrychioli cydbwysedd teg rhwng awduron gwrywaidd a benywaidd. Maent hefyd yn cael eu cefnogi gan ddarlleniadau wedi'u ffilmio sy'n rhad ac am ddim ac ar gael ar [YouTube](#).

Mae'r cerddi a ddefnyddir yn yr adnodd hwn ar gael i'w hargraffu yn yr atodiad.

# CHWIFIO'R FANER YN EICH YSGOL CHI

## CYMRU, LLOEGR A GOGLEDD IWERDDON - SUT MAE HYN YN CYSYLLTU 'R MAES LLAFUR TGAU

Mae'r adnoddau blodeugerdd yn cefnogi pob manyleb TGAU ac IGCSE a gellir eu defnyddio gyda dosbarthiadau TGAU i'w helpu i ddatblygu sgiliau waeth beth fo'r bwrdd arholi.

At ddibenion cynllunio adrannau, mae'r adnoddau hyn yn cwmpasu'r meysydd addysgu a sgiliau disgyblion canlynol:

- Barddoniaeth heb ei gweld
- Dadansoddiad o farddoniaeth
- Dysgu a dadansoddi dulliau awduron/dyfeisiau technegol
- Cymharu barddoniaeth
- Ysgrifennu ffurfiol/trafodol (mewn tasgau ymestyn iaith)
- Cysylltu cyd-destun â thestun
- Datblygu dulliau ysgrifennu beirniadol
- Deall a chysylltu testun a chyd-destun

# CHWIFIO'R FANER YN EICH YSGOL CHI

## SUT MAE DEFNYDDIO'R ADNODDAU HYN YN Y DOSBARTH?

### Defnyddio Adnoddau ar gyfer Llenyddiaeth Saesneg

Mae'r adnoddau hyn wedi'u cynllunio ar gyfer gwersi annibynnol nad oes angen i'r athro eu paratoi na'u gosod, ac eithrio:

- Llwytho adnoddau i lawr
- Argraffu copïau o gerddi i ddisgyblion
- Dewisol: Gwyllo fideos Fly The Flag i gael cyd-destun

Mae cymysgedd o wersi annibynnol gydag adnoddau a chynlluniau i annog darllen ac asesu barddoniaeth heb ei gweld fel un testun ac fel testunau i'w cymharu. Nodir tasgau ymchwil, awgrymiadau gwaith cartref a thasgau ymestyn ar gyfer Saesneg Iaith i gyd o fewn cynlluniau addysgu.

### Defnyddio Adnoddau ar gyfer Saesneg Iaith

Mewn TGAU Saesneg Iaith mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion ysgrifennu'n ffeithiol mewn ffurfiau gosodedig: llythyr, erthygl, araith. Awgrymir bod athrawon yn defnyddio'r cerddi fel deunydd ysgogi ar gyfer y prosiect hwn. Felly, mae disgyblion yn darllen y cerddi ac yn eu trafod cyn mynd i ffwrdd i ymchwilio i'r materion maen nhw'n eu codi. Mae'r ymchwiliadau hyn yn caniatáu iddynt ddod yn ôl i'r dosbarth a chymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu sy'n canolbwyntio ar ysgrifennu ffurfiol.

Gallai gwersi a awgrymir gynnwys disgyblion yn llunio:

- Llythyr
- Erthygl
- Araith

Gellir clymu pob un o'r rhain at y materion allweddol (bwyd, lloches, gofal iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a diogelwch) a godwyd gan ymgyrch Fly The Flag, ac yn unigol o fewn y cerddi eu hunain.

**Sylwch fod PowerPoint parod yn yr ystafell ddosbarth ar gael i'w llwytho i lawr i gyd-fynd â phob cynllun gwrs.**

# CHWIFIO'R FANER YN EICH YSGOL CHI

## SUT MAE HYN YN CYSYLLTU 'R CWRICWLWM CENEDLAETHOL YNG NGHYMRO, LLOEGR A GOGLEDD IWERDDON?

At ddibenion matrices cynllunio adrannol, mae'r adnoddau hyn wedi'u cynllunio i fodloni safonau'r cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Saesneg a Saesneg Iaith.

### Llenyddiaeth Saesneg

Fel adnoddau barddoniaeth heb ei gweld, i'w defnyddio mewn dulliau addysg ac asesu Saesneg Llenyddiaeth TGAU, maent yn adlewyrchu meini prawf [Darllen a Deall a Darllen yn Feirniadol](#), fel y nodir yn nogfennau fframwaith y cwricwlwm cenedlaethol:

### *Darllen a Deall a Darllen yn Feirniadol*

- Dealltwriaeth lythrennol a chasgliadol: deall gair, ymadrodd neu frawddeg mewn cyd-destun; archwilio agweddau ar blot, cymeriadau, digwyddiadau a lleoliadau; gwahaniaethu rhwng yr hyn a nodir yn glir a'r hyn a gaiff ei awgrymu; esbonio cymhelliant, dilyniant digwyddiadau, a'r berthynas rhwng gweithredoedd neu ddigwyddiadau
- Darllen beirniadol: nodi'r thema a gwahaniaethu rhwng themâu; cefnogi safbwynt drwy gyfeirio at dystiolaeth yn y testun; cydnabod y posibilrwydd o wahanol ymatebion i destun a'u gwerthuso; defnyddio dealltwriaeth o gyd-destunau cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol awduron i lywio'r broses werthuso; llunio ymateb personol gwybodus sy'n deillio o ddadansoddi a gwerthuso'r testun
- Gwerthuso dewis awdur o eirfa, nodweddion gramadegol a strwythurol: dadansoddi a gwerthuso sut mae iaith (gan gynnwys iaith drosiadol), strwythur, ffurf a chyflwyniad yn cyfrannu at ansawdd ac effaith; defnyddio terminoleg ieithyddol a llenyddol ar gyfer gwerthusiad o'i fath (er enghraifft, ond heb fod yn gyfyngedig i, ymadrodd, trosiad, mesur, eironi a phersona, cydgymeriad, camsyniad teimladol)
- Cymharu testunau: cymharu a chyferbynnu testunau a astudir, gan gyfeirio lle bo'n berthnasol at thema, cymeriadau, cyd-destun (lle bo'n hysbys), arddull ac ansawdd llenyddol; cymharu dau destun yn feirniadol yng nghyswllt yr uchod."

# CHWIFIO'R FANER YN EICH YSGOL CHI

Mae'r adnoddau hyn hefyd yn bodloni'r AOau Saesneg ar gyfer TGAU fel y nodwyd gyferbyn:

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/254498/GCSE\\_English\\_literature.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/254498/GCSE_English_literature.pdf)

<b>AO1</b>	Darllen, deall ac ymateb i destunau. Dylai myfyrwyr allu: <ul style="list-style-type: none"><li>• Cynnal arddull feirniadol a datblygu ymateb personol gwybodus</li><li>• Defnyddio cyfeiriadau testunol, gan gynnwys dyfyniadau, i gefnogi a dangos dehongliadau</li></ul>	<b>35–40%</b>
<b>AO2</b>	Dadansoddi'r iaith, y ffurf a'r strwythur a ddefnyddir gan awdur i greu ystyron ac effeithiau, gan ddefnyddio terminoleg pwnc berthnasol lle bo hynny'n briodol	<b>40–45%</b>
<b>AO3</b>	Dangos dealltwriaeth o'r berthynas rhwng testunau a'r cyd-destunau y cânt eu hysgrifennu ynddynt	<b>15–20%</b>
<b>AO4</b>	Defnyddio ystod o eirfa a strwythurau brawddegol ar gyfer eglurder, pwrpas ac effaith, gyda sillafu ac atalnodi cywir	<b>5%</b>

*Ym mhob manyleb yn ei chyfanrwydd, dylai 20–25% o'r marciau ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos y galluoedd a ddisgrifir yn AA1, AA2 ac AA3 drwy dasgau sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gymharu testunau.*



# CHWIFIO'R FANER YN EICH YSGOL CHI

## Saesneg iaith:

Fel adnoddau barddoniaeth heb ei gweld, i'w defnyddio mewn dulliau addysg ac asesu Saesneg Llenyddiaeth TGAU, maent yn adlewyrchu meini prawf Darllen a Deall Beirniadol, fel y nodir yn nogfennau fframwaith y cwricwlwm cenedlaethol:

### *Darllen a Deall Beirniadol*

- Nodi a dehongli themâu, syniadau a gwybodaeth mewn ystod o lenyddiaeth a dulliau ysgrifennu arall o ansawdd uchel; darllen mewn gwahanol ffyrdd at wahanol ddibenion, a chymharu a gwerthuso defnyddioldeb, perthnasedd a chyflwyniad cynnwys at y dibenion hyn; dod i gasgliadau a chyfiawnhau'r rhain gyda thystiolaeth; cefnogi safbwynt drwy gyfeirio at dystiolaeth yn y testun; nodi rhagfarn a chamddefnyddio tystiolaeth, gan gynnwys gwahaniaethu rhwng datganiadau sy'n cael eu hategu gan dystiolaeth a'r rhai nad ydynt;

myfyrio'n feirniadol ac yn werthusol ar destun, gan ddefnyddio cyd-destun y testun a manteisio ar wybodaeth a sgiliau a ddysgwyd o ddarllen ehangach; gan gydnabod y posibilrwydd o wahanol ymatebion i destun.

- Crynodeb a synthesis: nodi'r brif thema neu themâu; crynhoi syniadau a gwybodaeth o un testun; syntheseiddio o fwy nag un testun.
- Gwerthuso dewis awdur o eirfa, ffurf, nodweddion gramadegol a strwythurol: esbonio a dangos sut mae geirfa a gramadeg yn cyfrannu at effeithiolrwydd ac effaith, gan ddefnyddio terminoleg ieithyddol a llenyddol yn gywir i wneud hynny a rhoi sylw i fanylion; dadansoddi a gwerthuso sut mae ffurf a strwythur yn cyfrannu at effeithiolrwydd ac effaith testun.
- Cymharu testunau: cymharu dau destun neu fwy yn feirniadol yng nghyswllt yr uchod."

# CHWIFIO'R FANER YN EICH YSGOL CHI

Mae'r adnoddau hyn hefyd yn bodloni'r AOau Saesneg ar gyfer TGAU fel y nodwyd gyferbyn:

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/254497/GCSE\\_English\\_language.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/254497/GCSE_English_language.pdf)

## Darllen 50%

Darllen a deall ystod o destunau er mwyn:

### A01

- Adnabod a dehongli gwybodaeth a syniadau penodol ac unplyg
- Dewis a syntheseiddio tystiolaeth o wahanol destunau

### A02

Esbonio, rhoi sylwadau ar sut mae awduron yn defnyddio iaith a strwythur i gyflawni effeithiau a dylanwadu ar ddarllenwyr, gan ddefnyddio terminoleg pwnc berthnasol i gefnogi eu barn

### A03

Cymharu syniadau a safbwyntiau awduron, yn ogystal â sut y caiff y rhain eu cyfleu, ar draws dau neu fwy o destunau

### A04

Gwerthuso testunau'n feirniadol a chefnogi hyn gyda chyfeiriadau testunol priodol

# CHWIFIO'R FANER YN EICH YSGOL CHI

Os bydd myfyrwyr yn ymgymryd ag ysgrifennu tasgau ymestyn ar y cerddi hyn ar gyfer Saesneg Iaith yna byddant hefyd yn cwmpasu rhai o feini prawf Ysgrifennu'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Saesneg Iaith:

## *Ysgrifennu*

- Llunio testun clir a chydlynol: ysgrifennu'n effeithiol at wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd: disgrifio, adrodd, esbonio, cyfarwyddo, rhoi ac ymateb i wybodaeth, a dadlau; dewis geirfa, gramadeg, ffurf, a nodweddion strwythurol a threfniadol yn ddoeth i adlewyrchu cynulleidfa, pwrpas a chyddestun; defnyddio iaith yn ddychmygus ac yn greadigol; defnyddio gwybodaeth a ddarperir gan eraill i ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau; cynnal safbwynt cyson; cynnal cydlyniad a chysondeb ar draws testun.
- Ysgrifennu ar gyfer effaith: dewis, trefnu a phwysleisio ffeithiau, syniadau a phwyntiau allweddol; dyfynnu tystiolaeth a dyfyniad yn effeithiol ac yn berthnasol i gefnogi safbwyntiau; creu effaith emosiynol; defnyddio iaith yn greadigol, yn ddychmygus ac yn ddarbwyllol, gan gynnwys dyfeisiau rhethregol (fel cwestiynau rhethregol, gwrthgyferbyniad, sangiadau).

# CHWIFIO'R FANER YN EICH YSGOL CHI

Rhestrir yr AOau perthnasol ar gyfer ysgrifennu gyferbyn:

## Ysgrifennu 50%

### A05

- Cyfathrebu'n glir, yn effeithiol ac yn ddychmygus, gan ddewis ac addasu tôn, arddull a chofrestru ar gyfer gwahanol ffurfiau, dibenion a chynulleidfaoedd
- Trefnu gwybodaeth a syniadau, gan ddefnyddio nodweddion strwythurol a gramadegol i gefnogi cydlyniad a chydlyniant testunau

### A06

Rhaid i ymgeiswyr ddefnyddio ystod o eirfa a strwythurau brawddegol ar gyfer eglurder, pwrpas ac effaith, gyda sillafu ac atalnodi cywir. (Rhaid i'r gofyniad hwn fod yn 20% o'r marciau ar gyfer pob manyleb yn ei chyfanrwydd.)

# RHANNU

Rydym yn falch iawn bod eich ysgol yn ymuno â'r symudiad pwerus hwn sy'n llawn gobaith, agosatrwydd, myfyrio a chreadigrwydd ledled y DU.

Byddem wrth ein bodd yn hyrwyddo gweithgaredd *Fly The Flag* eich ysgol ar ein cyfryngau cymdeithasol, rydym yn eich gwahodd i rannu â ni.



@we\_flytheflag



@we\_flytheflag



/Fly-The-Flag-122826161959107/

# CYNLLUN GWERS 1:

## SOMETHING ISN'T RIGHT AND CARROT SOUP | SAESNEG IAITH

### BWRIAD(AU) NEU DDEILLIANT/ DEILLIANNAU DYSGU

Ffocws y wers hon yw dysgu'r sgiliau a'r strwythur ar gyfer ysgrifennu erthyglau ar gyfer y maes llafur TGAU Saesneg.

Mae'r dasg hon wedi'i fframio gan bwnc Hawliau Dynol, ymchwil am yr hawliau i fwyd, iechyd a lles a chan y ddwy gerdd *Something Isn't Right a Carrot Soup*. Erbyn diwedd y wers bydd disgyblion yn gallu drafftio erthygl ar y pynciau hyn.

D.S. Mae llawer o ddeunydd yma a gellid addysgu'r dosbarth hwn dros wers ddwbl neu gyfres o wersi.

### AWGRYMIADAU O WEITHGAREDDAU GWERSI (GELLIR GOLYGU/ADDASU'R RHAIN YN ÔL YR ANGEN)

D.S - Mae'r cynllun gwers hwn yn rhagdybio bod gan ddisgyblion wybodaeth flaenorol am y cerddi *Something Isn't Right* a *Carrot Soup* o wers lenyddiaeth flaenorol. Os na, yna gall dechrau'r wers gynnwys:

- Darllen y gerdd a thrafod ei themâu a'i syniadau.
- Gwyllo'r beirdd yn darllen ar YouTube – dolen yn sleidiau'r cyflwyniad Powerpoint.

**Tasg 1:** Nodwch y tri amcan dysgu i'r dosbarth:

Mae pedwar prif nod i'r dosbarth hwn:

- Ymchwilio i'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Yn enwedig y ffordd y mae'n diogelu ein hawliau i iechyd, bwyd a lles.
- Meddwl am sut mae ein bywydau'n cael eu heffeithio drwy gael hawliau.
- Adnewyddu a diweddarau ein gwybodaeth am gonfensiynau a ffurf ERTHYGLAU.
- Dysgu sut i ysgrifennu erthygl am fwyd, iechyd a hawliau dynol i bawb.

**Tasg 2:** Dangos y sleidiau gwybodaeth gefndir i'r

myfyrwyr, gan esbonio'r cysyniadau yn y fantol. Gofyn iddynt gwblhau'r ymarfer lle maen nhw'n ceisio clymu'r hawliau a'r hyn maen nhw'n ei ddiogelu'n uniongyrchol i'w bywydau bob dydd. Gyda rhywfaint o anogaeth (yn enwedig ar themâu'r cerddi) gall rhai disgyblion awgrymu cysyniadau fel newyn, tlodi bwyd neu wastraff bwyd ac ansicrwydd.

**Tasg 3:** Ar ôl arwain trafodaeth ddosbarth am gysylltiadau o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol ac yn enwedig Erthygl 25, arweiniwch y disgyblion drwy'r sleidiau am y sefyllfa gyfoes yn y DU o ran: tlodi bwyd a gwastraff bwyd.

## GWEITHGAREDDAU'R WERS (PARHAD)

**Tasg 4:** Amser ymchwil (gwaith annibynnol, gwaith pâr neu waith grŵp)

Myfyrwyr i geisio dod o hyd i wybodaeth gefndirol a fydd yn llywio eu llythyrau. Awgrymiadau o bum darn o wybodaeth allweddol.

Awgrymiadau o adnoddau:

<https://www.bigissue.com/latest/food-poverty-in-the-uk-the-causes-figures-and-solutions/>

<https://www.trusselltrust.org/what-we-do/real-stories/>

<https://www.bbc.co.uk/news/business-56654430>

<https://friendsoftheearth.uk/food-waste>

**Tasg 5:** Cyflwyno'r ymarfer ysgrifennu erthygl. Arwain y drafodaeth, mapio cysyniadau a geirfa ar y bwrdd ac yn eu llyfrau, gan roi syniadau iddynt ynghylch sut y gallai ysgrifennu erthygl fod yn effeithiol.

YNA - trafod y dulliau posibl o ymdrin â'r cwestiwn:

Ysgrifennu erthygl ar gyfer papur newydd cenedlaethol yn nodi eich barn ar dlodi bwyd a gwastraff bwyd.

**Tasg 6:** Atgoffa'r disgyblion o gonfensiynau ysgrifennu llythyrau.

Yn aml, ychydig o brofiad sydd gan ddisgyblion o ysgrifennu erthyglau ac felly efallai y bydd angen eu hatgoffa o'r strwythur a'r ffurfioldeb sydd eu hangen ar gyfer ysgrifennu ar gyfer taflen fras. Gall enghraifft gan athro fod yn ddefnyddiol yma. Dylai hyn gael ei arwain gan yr athro yn ôl profiad y dosbarth. Darperir dwy sleid i'w helpu.

1. Rhestr wirio strwythur. Nod hyn yw sicrhau bod trefniadaeth a nodweddion strwythurol allweddol eu dulliau ysgrifennu yn glir iddynt.
2. CRhestr wirio o ddyfeisiau ffurfiol a strwythurol i'w herthyglau eu hystyried cyn ysgrifennu.

**Tasg 7:** Y disgyblion i ysgrifennu eu herthyglau. (Yn debygol o fod yn waith cartref)

## GWAITH CARTREF

Yn dibynnu ar gynnydd a gallu disgyblion gallai hyn gynnwys:

- A. Gwneud ymchwil pellach ar y dadleuon ynghylch: bwyd, iechyd a lles.
- B. Gwneud cynlluniau o strwythur yr erthygl.
- C. Ysgrifennu rhywfaint o benawdau drafft.
- D. Drafftio paragraff, neu'r erthygl lawn.
- E. Os caiff ei ddrafftio yn y dosbarth, ysgrifennu drafft gwell.

## ADNODDAU

Powerpoint Ystafell Ddosbarth

Copiau o'r gerdd neu'r flodeugerdd *Fly The Flag*

Ysgrifennu deunyddiau ar gyfer disgyblion

Naill ai deunydd wedi'i argraffu ar gyfer ymchwil, NEU fynediad at TG i wneud ymchwil.

# CYNLLUN GWERS 2:

## SOMETHING ISN'T RIGHT AND CARROT SOUP | LLENYDDIAETH SAESNEG

### BWRIAD(AU) NEU DDEILLIANT/ DEILLIANNAU DYSGU

Datblygu sgiliau cymharu ar gyfer elfen farddoniaeth heb ei gweld o'r papur Llenyddiaeth TGAU/IGCSE. Mae'r ffocws ar ddwy gerdd: *Something Isn't Right* gan Casey Bailey a *Carrot Soup* gan Vanessa Kisuule.

Bydd disgyblion yn dysgu sgiliau gan gynnwys:

- Sut i ymdrin â cherdd heb ei gweld.
- Gwneud tabl cymharu.
- Datblygu dadansoddiad barddoniaeth heb ei gweld o'r blaen paragraffau.

Mae digon o ddeunydd i rannu'r wers hon ar draws dwy wers neu wers ddwbl.

D.S - Gellir defnyddio'r wers hon fel gwrs annibynnol i addysgu sgiliau cymharol ar gyfer elfen barddoniaeth heb ei gweld o'r TGAU a'r IGCSE. Fodd bynnag, gellir ei defnyddio hefyd fel ffordd o baratoi ar gyfer gwrs Saesneg 2 (erthygl am fanciau bwyd).

### AWGRYMIADAU O WEITHGAREDDAU GWERSI (GELLIR GOLYGU/ADDASU'R RHAIN YN ÔL YR ANGEN)

**Tasg 1:** I gychwyn

Edrychwch ar eiriad y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Faint mae disgyblion yn ei wybod am y ddogfen hon? Trafodaeth/Darogan: Gan ddefnyddio teitl y cerddi, meddylwch sut y gallai'r beirdd fod yn ysgrifennu am hawliau.

**Tasg 2:** Esbonio + darlleniad 1af

Gweithgaredd cyntaf y gerdd yw gwranddo ar y ddau ac, os yn bosibl, gwyllo'r perfformiadau. Nid oes yn rhaid i ddisgyblion wneud unrhyw nodiadau, ond dylent roi cynnig arni a bod yn barod i drafod eu syniadau a'u hargraffiadau cyntaf.

**Tasg 3:** Ail ddarlleniad

Diben yr ail ddarlleniad yw rhoi cyfle i ddisgyblion fynd i'r afael â manylion y cerddi. Dylent amlygu a gwneud nodiadau o'r pethau allweddol maent yn sylwi arno. Dilynir gyda: Trafodaeth gyda'r dosbarth ac anodi. Mae ymarfer map meddwl dewisol i helpu disgyblion i gofnodi syniadau y gallant eu defnyddio'n ddiweddarach wrth ysgrifennu.

**Tasg 4:** Llunio cymhariaeth

Eglurwch i'r disgyblion fod cymhariaeth farddoniaeth yn dibynnu ar i ddod o hyd i bwyntiau o debygrwydd a gwahaniaeth. Mae'r tabl wedi'i gynllunio i'w helpu i drefnu eu syniadau ar ffurf hawdd ei ddefnyddio i'w cymharu. Mae'r ffocws yn adlewyrchu'r sgiliau cymharu barddoniaeth heb ei gweld sydd eu hangen ar gyfer TGAU/IGCSE; sef:

- Syniadau
- Strwythur
- Iaith
- Delweddaeth

**Tasg 5:** Ysgrifennu paragraff cymharol

Ar ôl y nodiadau rhagarweiniol mae 4 prif sleid i helpu disgyblion i baratoi i ysgrifennu eu paragraff eu hunain.

- Diagram ar strwythuro eu dull ysgrifennu.
- Esboniad ar frawddegau pwnc a chynnwys paragraff.
- Sut i ddefnyddio'r system PEEL.
- Taflen o ymadroddion traethawd defnyddiol.

**Tasg 6:** Disgyblion yn ysgrifennu eu hymatebion eu hunain.



## GWERS 2

### GWAITH CARTREF

---

Mae sawl dewis posibl ar gyfer y gwaith cartref.

---

A. Cwblhau'r gymhariaeth fel tasg gwaith cartref.

---

B. Cwblhau'r paragraff fel tasg gwaith cartref.

---

C. Ymchwilio ymhellach i'r materion sy'n ymwneud â hawliau y mae'r beirdd yn eu codi:

Er enghraifft – faint o bobl sydd heb ffordd o fyw sy'n caniatáu iddynt arfer eu hawl i iechyd? (Mae Dewis C yn caniatáu i'r athro arwain at wers integredig ar Iaith Saesneg – Gwers 2 yn yr adnoddau hyn.)

### ADNODDAU

---

Powerpoint Ystafell Ddosbarth

---

Copiau o'r gerdd neu'r flodeugerdd *Fly The Flag*.

---

Ysgrifennu deunyddiau ar gyfer disgyblion

---

Naill ai deunydd wedi'i argraffu ar gyfer ymchwil, NEU fynediad at TG i wneud ymchwil.

# CYNLLUN GWERS 3:

## CYMHARU: A SMALL NEEDFUL FACT & ROOF | LLENYDDIAETH SAESNEG

### BWRIAD(AU) NEU DDEILLIANT/ DEILLIANNAU DYSGU

Datblygu sgiliau cymharu ar gyfer elfen farddoniaeth heb ei gweld o'r papur Llenyddiaeth TGAU/IGCSE. Mae'r ffocws ar ddwy gerdd: *Roof* gan Cecilia Knapp a *A Small Needful Fact* gan Amina Jama.

Bydd disgyblion yn dysgu sgiliau gan gynnwys:

- Sut i ymdrin â cherdd heb ei gweld.
- Gwneud tabl cymharu.
- Datblygu paragraffau dadansoddi barddoniaeth heb ei gweld o'r blaen.

Mae digon o ddeunydd i rannu'r wers hon ar draws dwy wers neu wers ddwbl.

D.S - Gellir defnyddio'r wers hon fel gwrs annibynnol i addysgu sgiliau cymharol ar gyfer elfen barddoniaeth heb ei gweld o'r TGAU a'r IGCSE. Fodd bynnag, gellir ei ddefnyddio hefyd fel ffordd o baratoi ar gyfer Gwers Saesneg 2 (araith am hawliau dynol).

### AWGRYMIADAU O WEITHGAREDDAU GWERSI (GELLIR GOLYGU/ADDASU'R RHAIN YN ÔL YR ANGEN)

#### Tasg 1: I gychwyn

Edrychwch ar eiriad y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Faint mae disgyblion yn ei wybod am y ddogfen hon? Trafodaeth/Darogan: Gan ddefnyddio teitl y cerddi, meddyliwch sut y gallai'r beirdd fod yn ysgrifennu am hawliau.

#### Tasg 2: Esbonio + darlleniad 1af

Gweithgaredd cyntaf y gerdd yw gwrando ar y ddau ac, os yn bosibl, gwyllo'r perfformiadau. Nid oes yn rhaid i ddisgyblion wneud unrhyw nodiadau, ond dylent geisio bod yn barod i siarad am eu syniadau a'u hargraffiadau cyntaf.

#### Tasg 3: Ail ddarlleniad

Diben yr ail ddarlleniad yw rhoi cyfle i ddisgyblion fynd i'r afael â manylion y cerddi. Dylent amlygu a gwneud nodiadau o'r pethau allweddol maent yn sylwi arnynt. Dilynir gyda: Trafodaeth gyda'r dosbarth ac anodi. Mae ymarfer map meddwl dewisol i helpu disgyblion cofnodi syniadau y gallant eu defnyddio'n ddiweddarach yn eu dull ysgrifennu.

#### Tasg 4: Llunio cymhariaeth

Eglurwch i'r disgyblion fod cymharu barddoniaeth yn dibynnu ar ddod o hyd i bwyntiau o debygrwydd a gwahaniaeth. Mae'r tabl wedi'i gynllunio i'w helpu i drefnu eu syniadau i ffurf hawdd ei defnyddio ar gyfer cymharu. Mae'r ffocws yn adlewyrchu'r sgiliau cymharu barddoniaeth heb ei gweld sydd eu hangen ar gyfer TGAU/IGCSE; sef:

- Syniadau
- Strwythur
- Iaith
- Delweddaeth

#### Tasg 5: Ysgrifennu paragraff cymharol

Ar ôl y nodiadau rhagarweiniol mae 4 prif sleid i helpu disgyblion i baratoi i ysgrifennu eu paragraff eu hunain.

- Diagram ar strwythuro eu dull ysgrifennu.
- Esboniad ar frawddegau pwnc a chynnwys paragraff.
- Sut i ddefnyddio'r system PEEL.
- Taflen o ymadroddion traethawd defnyddiol.

#### Tasg 6: Disgyblion yn ysgrifennu eu hymatebion eu hunain

C. Rhowch gynnig ar gymharu a gwrthgyferbynnu sut mae Cecelia Knapp ac Amina Jama yn darlunio tloidi yn *Roof* a *A Small Needful Fact*.

## GWERS 3:

### GWAITH CARTREF

---

Mae sawl dewis posibl ar gyfer y gwaith cartref.

---

A. Cwblhau'r gymhariaeth fel tasg gwaith cartref.

---

B. Cwblhau'r paragraff fel tasg gwaith cartref.

---

C. Ymchwilio ymhellach i'r materion sy'n ymwneud â hawliau y mae'r beirdd yn eu codi:

Er enghraifft – faint o bobl sydd heb ffordd o fyw sy'n caniatáu iddynt arfer eu hawl i iechyd neu eu hawl i loches? (Mae Dewis C yn caniatáu i'r athro arwain at wers integredig ar Iaith Saesneg.)

### ADNODDAU

---

Powerpoint Ystafell Ddosbarth

---

Taflen Cymharu Barddoniaeth

---

Copiau o'r gerdd neu'r flodeugerdd *Fly The Flag* neu o'r ddwy gerdd.

---

Ysgrifennu deunyddiau ar gyfer disgyblion

# CYNLLUN GWERS 4:

## ROOF AC A SMALL NEEDFUL FACT | SAESNEG IAITH

### BWRIAD(AU) NEU DDEILLIANT/ DEILLIANNAU DYSGU

Ffocws y wers hon yw dysgu'r sgiliau a'r strwythur ar gyfer ysgrifennu erthyglau ar gyfer y maes llafur TGAU Saesneg.

Mae'r dasg hon wedi'i fframio gan bwnc Hawliau Dynol, ymchwil am yr hawliau i fwyd, iechyd, cysgod a lles a chan y ddwy gerdd Roof gan Cecilia Knapp ac *A Small Needful Fact* gan Amina Jama. Erbyn diwedd y wers bydd disgyblion yn gallu drafftio erthygl ar y pynciau hyn.

D.S. Mae llawer o ddeunydd yma a gellid addysgu'r dosbarth hwn dros wers ddwbl neu gyfres o wersi.

### AWGRYMIADAU O WEITHGAREDDAU GWERSI (GELLIR GOLYGU/ADDASU'R RHAIN YN ÔL YR ANGEN)

D.S - Mae'r cynllun gwers hwn yn rhagdybio bod gan ddisgyblion wybodaeth flaenorol am y cerddi Roof ac A Small Needful Fact o wers lenyddiaeth flaenorol. Os na, yna gall dechrau'r wers gynnwys:

- Darllen y gerdd a thrafod ei themâu a'i syniadau.
- Gwylïo'r beirdd yn darllen ar YouTube – dolenn iddynt ar sleidiau'r powerpoint.

**Tasg 1:** Nodwch y tri amcan dysgu i'r dosbarth::

Mae pedwar prif nod i'r dosbarth hwn:

- Ymchwilio i'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Yn enwedig y ffordd y mae'n diogelu ein hawliau i iechyd, bwyd a lles.
- Meddwl am sut mae ein bywydau'n cael eu heffeithio drwy gael hawliau.
- Adnewyddu a diweddarau ein gwybodaeth am gonfensiynau a ffurf AREITHIAU.
- Dysgu sut i ysgrifennu araith am hawliau dynol ar gyfer cynulleidfia o gyd-ddisgyblion.

**Tasg 2:** SDangos y sleidiau gwybodaeth gefndir i'r myfyrwyr, gan esbonio'r cysyniadau yn y fantol. Mae'r cyntaf o Marcus Rashford (testun cerdd Jama) a'r gair 'Cartref' – y cysyniad sy'n ganolog i gerdd Knapp.

**Tasg 3:** Dangos y sleidiau i'r disgyblion ar *Fly The Flag* a'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Esbonio'r cysyniadau sydd wedi'u hymgorffori yn y ddeddfwriaeth.

Gofyn iddynt gwblhau'r ymarfer lle maen nhw'n ceisio clymu'r hawliau a'r hyn maen nhw'n ei ddiogelu'n uniongyrchol i'w bywydau bob dydd. Gyda rhywfaint o ysgogi (yn enwedig ar themâu'r cerddi) gall rhai disgyblion awgrymu cysyniadau fel cysgod, newyn, tlodi bwyd neu wastraff bwyd ac ansicrwydd.

**Tasg 4:** Chwarae'r ddwy gerdd i'r myfyrwyr a thrafod y ffordd y mae'r beirdd yn tynnu sylw at hawliau dynol fel thema.

**Tasg 5:** Arwain y disgyblion drwy'r sleidiau am y sefyllfa gyfoes yn y DU o ran: digartrefedd, prydau ysgol am ddim, tlodi bwyd a gwastraff bwyd.

## GWERS 4:

### GWEITHGAREDDAU'R WERS (PARHAD)

**Tasg 6:** Amser ymchwil (gwaith annibynnol, gwaith pâr neu waith grŵp)

Myfyrwyr i geisio dod o hyd i wybodaeth gefndirol a fydd yn llywio eu llythyrau. Awgrymiadau o bum darn o wybodaeth allweddol.

Awgrymiadau o adnoddau:

<https://www.bigissue.com/latest/food-poverty-in-the-uk-the-causes-figures-and-solutions/>

<https://www.trusselltrust.org/what-we-do/real-stories/>

<https://www.bbc.co.uk/news/business-56654430>  
[www.crisis.org.uk](http://www.crisis.org.uk)

<https://friendsoftheearth.uk/food-waste>

**Tasg 7:** Cyflwyno'r ymarfer ysgrifennu araith. Arwain y drafodaeth, mapio cysyniadau a geirfa ar y bwrdd ac yn eu llyfrau, gan roi syniadau iddynt ynghylch sut y gallai ysgrifennu araith fod yn effeithiol.

YNA - trafod y dulliau posibl o ymdrin â'r cwestiwn:

Dyma'r dasg:

Ysgrifennu araith ar gyfer eich cyd-ddisgyblion sy'n nodi manteision hawliau dynol.

**Tasg 8:** Atgoffa'r disgyblion o gonfensiynau ysgrifennu araith.

Yn aml, ychydig o brofiad sydd gan ddisgyblion o ysgrifennu areithiau ac felly efallai y bydd angen eu hatgoffa o'r strwythur a'r ffurfioldeb sydd eu hangen.

Gall enghraifft gan athro fod yn ddefnyddiol yma. Dylai'r gweithgaredd hwn gael ei arwain gan athrawon yn ôl profiad eu dosbarth. Darperir dwy sleid i'w helpu.

1. Rhestr wirio strwythur. Nod hyn yw sicrhau bod trefniadaeth a nodweddion strwythurol allweddol eu dulliau ysgrifennu araith yn glir iddynt.
2. Rhestr wirio o ddyfeisiau ffurfiol a strwythurol i'w hareithiau eu hystyried cyn ysgrifennu.

**Tasg 9:** Y disgyblion i ysgrifennu eu hareithiau. (Yn debygol o fod yn waith cartref).

### GWAITH CARTREF

Yn dibynnu ar gynnydd a gallu disgyblion gallai hyn gynnwys:

- A. Gwneud ymchwil pellach ar y dadleuon ynghylch: digartrefedd, prydau ysgol am ddim, bwyd, iechyd a lles.
- B. Lluoio cynllun ar sut i strwythuro araith.
- C. Ysgrifennu rhai llinellau neu agoriad drafft.
- D. Drafftio paragraff, neu'r araith lawn.
- E. Os caiff ei ddrafftio yn y dosbarth, ysgrifennu drafft gwell.

### ADNODDAU

Powerpoint Ystafell Ddosbarth

Copiau o'r gerdd neu'r flodeugerdd *Fly The Flag*.

Ysgrifennu deunyddiau ar gyfer disgyblion

Naill ai deunydd wedi'i argraffu ar gyfer ymchwil, NEU fynediad at TG i wneud ymchwil.

# CYNLLUN GWERS 5: GREEN HOODED SWEATSHIRT | LLENYDDIAETH SAESNEG

## BWRIAD(AU) NEU DDEILLIANT/ DEILLIANNAU DYSGU

Canolbwynt y wers hon yw Green Hooded Sweatshirt gan Wayne Holloway-Smith

- Cyflwyno dadansoddiad barddoniaeth heb ei gweld o'r blaen
- Ymarfer darllen barddoniaeth heb ei gweld
- Dadansoddiad o ddulliau'r awdur, dyfeisiau llenyddol

D.S - Gellir defnyddio'r wers farddoniaeth heb ei gweld hon fel gwers mewn dilyniant o ddau, gyda dolen Gwers Saesneg Iaith hefyd yn seiliedig ar y gerdd.

## AWGRYMIADAU O WEITHGAREDDAU GWERSI (GELLIR GOLYGU/ADDASU'R RHAIN YN ÔL YR ANGEN)

**Tasg 1:** Gweithgaredd i gychwyn - Disgyblion i ystyried cwestiynau am y ddelwedd 'green sweatshirt'. Trafodaeth i ddilyn? Efallai y bydd rhai plant yn ymwybodol o'r materion sy'n ymwneud â llafur plant o ran gweithgynhyrchu dillad a materion hawliau plant.

**Tasg 2:** Gwrando ar y bardd yn adrodd y gerdd - dolen YouTube wedi'i hymgorffori yn y powerpoint. Trafodaeth am argraffiadau cyntaf y gerdd.

**Tasg 3:** Bydd y disgyblion yn darllen y gerdd eto eu hunain/pâr/grwpiau ac yn cofnodi eu hargraffiadau am: gynnwys, themâu, hwyliau.

**Tasg 4:** Gweithgareddau dan arweiniad athrawon ar:

- Ffurf a Strwythur
- Iaith
- Delweddaeth

**Tasg 5:** Bydd y disgyblion yn ymgymryd â thasg ysgrifennu - awgrymiadau o deitlau ar powerpoint.

**Tasg 6:** Cyfarfod llawn. Gofynnwch i'r disgyblion ystyried sut y gallai'r gerdd hon fod wedi bod yn wahanol petaem yn ei symud i leoliad neu wlad arall.

## GWAITH CARTREF

Dwy dasg waith cartref posibl:

A. Disgyblion i ymgymryd â chwestiwn amseredig am Green Hooded Sweatshirt. Fformat a bennir gan fwrdd arholi/athro ond gellid defnyddio'r fformat canlynol:  
C. Sut mae'r bardd yn archwilio thema perthnasodd teuluol yn Green Hooded Sweatshirt?

B. Byddai gwaith cartref arall ar gyfer myfyrwyr i wneud rhywfaint o ymchwil am y canlynol:

- Tlodi plant yn y DU
- Tlodi plant mewn gwledydd eraill
- Amodau llafur plant yn rhyngwladol

Gellir defnyddio'r gwaith ymchwil hwn i gefnogi'r wers Saesneg ar yr un gerdd â gwers 2/2.

## ADNODDAU

PowerPoint

Copiau o'r gerdd neu'r flodeugerdd *Fly The Flag*.

Ysgrifennu deunyddiau ar gyfer disgyblion

# CYNLLUN GWERS 6: GREEN HOODED SWEATSHIRT | SAESNEG IAITH

## BWRIAD(AU) NEU DDEILLIANT/ DEILLIANNAU DYSGU

Canolbwynt y wers hon yw *Green Hooded Sweatshirt* gan Wayne Holloway-Smith

Llunio llythyr at ffigwr cyhoeddus, gwleidydd neu bapur newydd yn seiliedig ar y gerdd.

D.S. Mae llawer o ddeunydd yma a gellid addysgu'r dosbarth hwn dros wers ddwbl neu gyfres o wersi.

## AWGRYMIADAU O WEITHGAREDDAU GWERSI (GELLIR GOLYGU/ADDASU'R RHAIN YN ÔL YR ANGEN)

D.S - Mae'r cynllun gwers hwn yn rhagdybio bod gan ddisgyblion wybodaeth flaenorol am y gerdd *Green Hooded Sweatshirt* o wers lenyddiaeth flaenorol. Os na, yna gall dechrau'r wers gynnwys:

- Darllen y gerdd a thrafod ei themâu a'i syniadau.
- Gwyllo'r bardd yn darllen ar YouTube: <https://www.youtube.com/watch?v=PLfq5wnSblg>
- Trafodaeth ddilynol am hawliau plant.

**Tasg 1:** Nodwch y tri amcan dysgu i'r dosbarth:

Mae tri phrif nod i'r dosbarth hwn:

- Ymchwilio i hawliau plant.
- Adnewyddu a diweddarau ein gwybodaeth am gonfensiynau a ffurfiau ysgrifennu llythyrau.
- Drafftio llythyr am hawliau plant at ffigur cyhoeddus.

**Tasg 2:** Dangos y sleidiau gwybodaeth gefndir i'r myfyrwyr, gan esbonio'r cysyniadau yn y fantol. Gofyn iddynt gwblhau'r ymarfer dau flwch, i nodi ble mae hawliau plant yn cael eu parchu a lle nad ydynt.

**Tasg 3:** Cyflwyno'r ymarfer ysgrifennu llythyr. Arwain y drafodaeth, mapio cysyniadau a geirfa ar y bwrdd ac yn eu llyfrau, gan roi syniadau iddynt ynghylch sut y gallai ysgrifennu llythyr fod yn effeithiol.

Nod y sleid Obama yw dangos bod ffigurau pwerus yn darllen ac yn ymateb i lythyrau gan bobl gyffredin.

## GWERS 6:

### GWEITHGAREDDAU'R WERS (PARHAD)

**Tasg 4:** Amser ymchwil (gwaith annibynnol, gwaith pâr neu waith grŵp)

Myfyrwyr i geisio dod o hyd i wybodaeth gefndirol a fydd yn llywio eu llythyrau. Awgrymiadau o bum darn o wybodaeth allweddol.

Awgrymiadau o adnoddau:

<https://www.unicef.org/social-policy/child-poverty>

[https://www.unicef.org.uk/child-rights-partners/wp-content/uploads/sites/3/2016/08/CRC\\_summary\\_leaflet\\_Child\\_Rights\\_Partners\\_web\\_final.pdf](https://www.unicef.org.uk/child-rights-partners/wp-content/uploads/sites/3/2016/08/CRC_summary_leaflet_Child_Rights_Partners_web_final.pdf)

<https://www.savethechildren.org.uk/what-we-do/childrens-rights/united-nations-convention-of-the-rights-of-the-child>

**Tasg 5:** Atgoffa'r disgyblion o gonfensiynau ysgrifennu llythyrau.

Yn aml, nid yw disgyblion yn ysgrifennu llawer o lythyrau ac felly efallai y bydd angen eu hatgoffa o'r strwythur a'r ffurfioldeb sydd eu hangen ar gyfer llythyr at ffigur cyhoeddus. Dylai hyn gael ei arwain gan athrawon yn ôl profiad eu dosbarth.

Yna mae dau weithgaredd i'w helpu i feddwl yn fwy ffurfiol am ysgrifennu llythyrau:

1. Rhestr wirio cyn ysgrifennu. Nod hyn yw sicrhau bod y rheswm pam eu bod yn ysgrifennu yn glir iddynt.
2. Rhestr wirio o nodweddion ffurfiol a strwythurol ar gyfer eu llythyrau i'w cynllunio cyn ysgrifennu.

**Tasg 6:** Y disgyblion i ysgrifennu eu llythyrau. (Yn debygol o fod yn waith cartref)

### GWAITH CARTREF

Yn dibynnu ar gynnydd a gallu disgyblion gallai hyn gynnwys:

- A. Cynllunio'r llythyr.
- B. Drafftio paragraff, neu'r llythyr llawn.
- C. Os caiff ei ddrafftio yn y dosbarth, ysgrifennu drafft gwell.

### ADNODDAU

Powerpoint Ystafell Ddosbarth

Copiau o'r gerdd neu'r flodeugerdd *Fly The Flag*.

Ysgrifennu deunyddiau ar gyfer disgyblion

Naill ai deunydd wedi'i argraffu ar gyfer ymchwil, NEU fynediad at TG i wneud ymchwil.



# CYNLLUN GWERS 7: THE EMPTY TABLE | LLENYDDIAETH SAESNEG

## BWRIAD(AU) NEU DDEILLIANT/ DEILLIANNAU DYSGU

Datblygu sgiliau dadansoddi ar gyfer elfen farddoniaeth heb ei gweld o'r papur Llenyddiaeth TGAU/IGCSE. Canolbwynt y wers fydd cerdd *The Empty Table* gan DL Williams

Bydd disgyblion yn dysgu sgiliau gan gynnwys:

- Cysylltu cyd-destun a thestun – sut mae hawliau dynol yn cael eu harchwilio yn y gerdd hon?
- Sut i ymdrin â cherdd heb ei gweld.
- Datblygu paragraffau dadansoddi barddoniaeth heb ei gweld o'r blaen.

D.S - Gellir defnyddio'r wers hon fel gwers annibynnol i addysgu sgiliau cymharol ar gyfer elfen barddoniaeth heb ei gweld o'r TGAU a'r IGCSE. Fodd bynnag, gellir ei ddefnyddio hefyd fel ffordd o baratoi ar gyfer gwersi PHSE, yn yr achos hwn drwy ganolbwyntio'n benodol ar faterion yn ymwneud ag allgau a rhagfarn.

## AWGRYMIADAU O WEITHGAREDDAU GWERSI (GELLIR GOLYGU/ADDASU'R RHAIN YN ÔL YR ANGEN)

### Tasg 1: I gychwyn

Disgyblion i ystyried delwedd y 'Bwrdd Gwag' a gweithio drwy'r arbrawf meddwl. Athro i arwain trafodaeth dosbarth ar yr hyn y gallai'r ddelwedd ei olygu a phwy nad yw'n cael ei gynnwys yn eu senarios o bosib.

### Tasg 2: Esbonio + darlleniad 1af

Gweithgaredd cyntaf y gerdd yw gwyllo'r perfformiad. Nid oes yn rhaid i ddisgyblion wneud unrhyw nodiadau, ond dylent geisio bod yn barod i siarad am eu syniadau a'u hargraffiadau cyntaf. Mae sleid gyda'r cwestiynau arweiniol canlynol.

- Beth yw eich ymateb cyntaf i'r gerdd? Pam?
- Beth ydych chi'n sylwi arno ynglŷn â sut mae'r gerdd yn cael ei threfnu?
- Beth ydych chi'n meddwl y gallai'r awdur fod yn ceisio'i ddweud?
- Ydych chi'n hoffi'r gerdd?
- Pam mae cymaint o orchmynion yn y gerdd?

### Tasg 3: Trafod Hawliau Dynol

Ar ôl y drafodaeth ragarweiniol am eu hargraffiadau cyntaf, edrychwch ar eiriad y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol gyda disgyblion.

Faint mae disgyblion yn ei wybod am y ddogfen hon?

Gofynnwch i'r disgyblion gydweithio ar y sleid gyda gwahanol erthyglau. Eu tasg yw meddwl pa erthyglau o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol sydd fwyaf perthnasol i'r gerdd – wrth gwrs, byddant i gyd yn berthnasol mewn gwahanol ffyrdd sy'n arwain at drafodaeth lawnach yn ymwneud â thestun a chyd-destun.

### Tasg 4: Ail ddarlleniad

Diben yr ail ddarlleniad yw rhoi cyfle i ddisgyblion fynd i'r afael â manylion y cerddi. Dylent amlygu a gwneud nodiadau o'r pethau allweddol maent yn sylwi arnynt.

## GWERS 7:

### GWEITHGAREDDAU'R WERS (PARHAD)

**Tasg 5:** Anodi'r gerdd – gweithio tuag at ysgrifennu Dilynir gyda: Anodi ar agweddau allweddol ar y gerdd gan gynnwys Strwythur, Iaith a Delweddau. Unwaith eto, mae cwestiynau ysgogi ar gyfres o sleidiau i helpu disgyblion i ddatblygu eu syniadau am y gerdd. Ar gyfer pob categori mae cwestiynau ysgogi i helpu i lywio ymatebion disgyblion.

Nodir termau technegol defnyddiol mewn **print trwm** ar y powerpoint.

**Tasg 6:** Mae'r Disgyblion yn Ysgrifennu eu Hymatebion eu Hunain Nodir y dasg isod: Sut mae'r bardd yn cyflwyno thema rhagfarn neu deimlo'n ynysig yn *The Empty Table*?

Meddyliwch am y canlynol:

- Sut mae hi'n cyfleu'r sefyllfa
- Sut mae hi'n disgrifio'r sgysiau sy'n digwydd wrth y bwrdd.
- Sut mae hi'n cloi neu'n gorffen y gerdd.

Ysgrifennwch eich ateb mewn brawddegau llawn. Dylech anelu am ddau baragraff. Cofiwch ddefnyddio iaith dechnegol i ddisgrifio'r hyn y mae'r awdur yn ei wneud.

**Tasg 7:** Yn achos gwers ddwbl, mae cyfarfod llawn yn seiliedig ar deitlau cerddi pellach yn cyfrif fel tasg ymestyn.

### GWAITH CARTREF

Mae sawl dewis posibl ar gyfer y gwaith cartref.

- A. Cwblhau'r paragraffau beirniadol fel tasg gwaith cartref.
- B. Cwblhau un paragraff fel tasg gwaith cartref.
- C. Ysgrifennu eu cerdd eu hunain yn seiliedig ar The Empty Table.
- D. Ysgrifennu eu cerdd eu hunain yn seiliedig ar y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol.

### ADNODDAU

Powerpoint Ystafell Ddosbarth

Copiau o'r gerdd neu'r flodeugerdd *Fly The Flag*

Ysgrifennu deunyddiau ar gyfer disgyblion

# CYNLLUN GWERS 8:

## FLYING THE FLAG | LLENYDDIAETH SAESNEG

### BWRIAD(AU) NEU DDEILLIANT/ DEILLIANNAU DYSGU

Datblygu sgiliau dadansoddi ar gyfer elfen farddoniaeth heb ei gweld o'r papur Llenyddiaeth TGAU/IGCSE. Mae'r ffocws ar gerdd *Flying The Flag* gan Keisha Thompson.

Bydd disgyblion yn dysgu sgiliau gan gynnwys:

- Trafod symbolaeth o fewn barddoniaeth.
- Sut mae hawliau dynol yn cael eu harchwilio yn y gerdd hon?
- Sut i ymdrin â cherdd heb ei gweld.
- Datblygu paragraffau dadansoddi barddoniaeth heb ei gweld o'r blaen.

D.S - Gellir defnyddio'r wers hon fel gwers annibynnol i addysgu sgiliau cymharol ar gyfer elfen barddoniaeth heb ei gweld o'r TGAU a'r IGCSE. Fodd bynnag, gellir ei ddefnyddio hefyd fel ffordd o baratoi ar gyfer gwersi PHSE, yn yr achos hwn drwy ganolbwyntio'n benodol ar faterion yn ymwneud ag allgáu a rhagfarn.

### AWGRYMIADAU O WEITHGAREDDAU GWERSI (GELLIR GOLYGU/ADDASU'R RHAIN YN ÔL YR ANGEN)

**Tasg 1:** Tasg(au) cychwynnol estynedig

Gofyn i'r disgyblion ystyried yr amrywiaeth o faneri ar y sleid gyntaf. Yr athro i arwain trafodaeth am beth yw symbolaeth ac ystyron y gwahanol faneri.

Cwestiwn i ddisgyblion - ac ystyried ein harsylwadau am faneri, pam fyddai bardd am ysgrifennu amdanynt?

**Tasg 2:** Fly The Flag

- Symud y disgyblion i drafod baner Ai Weiwei a gofyn am awgrymiadau gan ddisgyblion am ystyron posibl y faner. Beth allai fod yn symbol ohono?
- Fideo Ai Weiwei i ddisgyblion yn esbonio cefndir Fly the Flag a'r broses o'i dylunio. Mae hyn yn rhoi'r gerdd mewn cyd-destun.

**Tasg 3:** Trafod Hawliau Dynol

Ar ôl y drafodaeth ragarweiniol am eu hargraffiadau cyntaf, edrychwch ar eiriad y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol gyda disgyblion.

Faint mae disgyblion yn ei wybod am y ddogfen hon?

**Tasg 4:** Esbonio + darlleniad 1af

Gweithgaredd cyntaf y gerdd yw gwyllo a gwranddo ar berfformiad o'r gerdd. Nid oes yn rhaid i ddisgyblion wneud unrhyw nodiadau, ond dylent geisio bod yn barod i siarad am eu syniadau a'u hargraffiadau cyntaf. Mae sleid gyda'r cwestiynau arweiniol canlynol.

- Beth yw eich ymateb cyntaf i'r gerdd? Pam?
- Beth ydych chi'n sylwi arno ynglŷn â sut mae'r gerdd yn cael ei threfnu?
- Beth ydych chi'n meddwl y gallai'r awdur fod yn ceisio'i ddweud?
- Ydych chi'n hoffi'r gerdd?
- Pam mae cymaint o orchmynion yn y gerdd?

**Tasg 5:** Ail ddarlleniad

Diben yr ail ddarlleniad yw rhoi cyfle i ddisgyblion fynd i'r afael â manylion y cerddi. Dylent amlygu a gwneud nodiadau o'r pethau allweddol maent yn sylwi arnynt.

## GWERS 8:

### GWEITHGAREDDAU'R WERS (PARHAD)

**Tasg 6:** Anodi'r gerdd – gweithio tuag at ysgrifennu

Dilynir gyda: Anodi ar agweddau allweddol ar y gerdd gan gynnwys Strwythur, Iaith a Delweddau. Unwaith eto, mae cwestiynau ysgogi ar gyfres o sleidiau i helpu disgyblion i ddatblygu eu syniadau am y gerdd. Ar gyfer pob categori mae cwestiynau ysgogi i helpu i lywio ymatebion disgyblion.

Nodir termau technegol defnyddiol mewn **print trwm** ar y powerpoint.

**Tasg 7:** Mae'r Disgyblion yn Ysgrifennu eu

Hymatebion eu Hunain Nodir y dasg isod:

Meddylwch am y canlynol:

- Sut mae hi'n ateb y cwestiwn yn y llinell gyntaf.
- Sut mae hi'n disgrifio gwahanol ystyron baneri.
- Sut mae hi'n mynegi ei theimladau gwahanol am faneri.
- Ysgrifennwch eich ateb mewn brawddegau llawn. Dylech anelu am ddau baragraff. Cofiwch ddefnyddio iaith dechnegol i ddisgrifio'r hyn y mae'r awdur yn ei wneud.

**Tasg 8:** Cyfarfod llawn

Dychmygwch y gofynnir i chi ddylunio eich baner eich hun.

A. Gwnewch ddyluniad, gan ddefnyddio unrhyw symbolaeth o'ch dewis.

B. Ysgrifennwch baragraff yn esbonio beth mae eich dyluniad yn ei olygu, a beth mae'r faner yn ei gynrychioli.

### GWAITH CARTREF

Mae sawl dewis posibl ar gyfer y gwaith cartref.

A. Cwblhau'r paragraffau beirniadol fel tasg gwaith cartref.

B. Cwblhau un paragraff fel tasg gwaith cartref.

C. Ysgrifennu eu cerdd eu hunain yn seiliedig ar *Flying The Flag*.

D. Ysgrifennu eu cerdd eu hunain yn seiliedig ar y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol.

### ADNODDAU

Powerpoint Ystafell Ddosbarth

Copiau o'r gerdd neu'r flodeugerdd *Fly The Flag*.

Ysgrifennu deunyddiau ar gyfer disgyblion

# ADNODDAU YCHWANEGOL

## Gallwch brynu baner yma

- YGallwch ddod o hyd i'r holl gerddi Fly The Flag 2020 sydd newydd eu comisiynu ar [www.FlyTheFlag.org.uk](http://www.FlyTheFlag.org.uk)
- Amnesty International – Words that Burn – chwe chynllun gwers i ysbrydoli myfyrwyr uwchradd i ysgrifennu eu cerddi eu hunain wedi'u hysbrydoli gan Hawliau Dynol.
- Prosiect Donmar Warehouse Writing Wrongs – monologau gan wahanol awduron a phobl ifanc yn archwilio beth mae hawliau dynol yn ei olygu iddyn nhw. Mae canllaw i ysgrifennu eich monolog Writing Wrongs ar dudalennau 19-21 y pecyn Gosod Fly The Flag 2019.
- Gallwch lawrlwytho testun gwreiddiol Y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol yma.
- Mae'r fideo TED Ed byr hwn yn gyflwyniad defnyddiol i'r pwnc hawliau dynol.
- Mae gan Amnesty International UK [adnoddau addysgu cynhwysfawr am hawliau dynol ar gael am ddim](#). Yn ogystal ag [adnoddau creadigol manwl ar gyfer pob oedran](#), gallwch; drefnu siaradwr Amnesty International i ddod i'ch ysgol, cael gwybod am sefydlu grŵp ieuencid Amnesty International yn yr ysgol neu gofrestru ar gyfer post Amnesty International – Teach Rights – sy'n cynnwys manylion prosiectau y gall eich ysgol gymryd rhan ynddynt, cyfleoedd hyfforddi a manylion [adnoddau newydd wrth iddynt ddod ar gael](#).
- Gallwch [archebu My Rights Passports gan Amnesty International](#). Llyfryn lliwgar o holl erthyglau'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol i fyfyrwyr 11+ oed. I archebu: Ffoniwch 01788 545 553 a nodi'r cod ED112.
- Y Groes Goch – cysylltiad â'r cwricwlwm [adnoddau addysguar gyfer CA1 – 5](#), am amrywiaeth o bynciau gan gynnwys gwrthdaro a thrais, dyneiddiaeth, mudo a ffoaduriaid.
- UNICEF [adnoddau addysgu](#) ar gyfer CA2 – 5, am yr argyfwng ffoaduriaid gyda hawliau dynol/hawliau'r plentyn.
- [Save the Children Achub y Plant: Canllaw cyflawn i ymgyrchu](#) ar gyfer pobl ifanc.
- [Canllaw ymchwil ar gyfer y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol](#), gan gynnwys dolen i [gofnodion gair am air y cyfarfod lle cafodd y Datganiad ei fabwysiadu](#).





***Pecyn Fly The Flag: Barddoniaeth ar gyfer TGAU Saesneg***

Lluniwyd gan **Fuel**, ar ran *Fly The Flag*  
gan Ewan Monaghan  
Golygwyd gan Fuel

Mae **Fly The Flag** yn cael ei gyflwyno gan gasgliad unigryw o sefydliadau celfyddydol  
ac elusennau hawliau dynol. Gallwch weld rhestr lawn o'n partneriaid [yma](#)

FLY  
THE  
FLAG